**Y rheidrwydd i Aelodau gofrestru eu haelodaeth o'r Seiri Rhyddion yng Nghofrestr Buddiannau Statudol y Cynulliad**

## 1. Casgliad Cyffredinol

Gallai aelod herio'r rheidrwydd hwn yn Adran Llys Gweinyddol yr Uchel Lys fel Mater Datganoli o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998. Byddai llwyddiant yr her yn dibynnu'n fawr ar benderfyniad arfaethedig yn y Llys Iawnderau Dynol yn Strasbwrg, a sefydlwyd o dan y Cytundeb Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Disgwylir y dyfarniad cyn bo hir.

## 2. Cymhwysedd y Llys i benderfynu ar y mater hwn

O dan adran 107(01) Deddf Llywodraeth Cymru 1998, ni all y Cynulliad wneud unrhyw is-ddeddfwriaeth na llunio unrhyw ddeddf arall sy'n anghymharus ag unrhyw un o hawliau'r Cytundeb. Dyma'r hawliau a enwir yn Atodlen 1 Deddf Hawliau Dynol 1998. Wrth ei gwneud yn ofynnol i Aelodau gofrestru eu haelodaeth o'r Seiri Rhyddion, fel rhan o'r Atodiad i Reol Sefydlog 4, mae'r Cynulliad naill ai wedi gwneud is-ddeddfwriaeth neu wedi llunio deddf.

O dan adran 107(2) Deddf Llywodraeth Cymru, dim ond os byddai'n ddioddefwr at ddibenion Erthygl 34 y Cytundeb Ewropeaidd ar Hawliau Dynol y gall person ddechrau achos mewn Llys. Byddai Aelod o'r Cynulliad y mae'n rhaid iddo gofrestru ei aelodaeth o'r Seiri Rhyddion yn "ddioddefwr" i'r diben hwn.

## 3. Yr hawliau a osodir gan Atodlen 1 i'r Ddeddf Hawliau Dynol

Er mwyn profi dilysrwydd gweithred y Cynulliad, byddai'r Llys yn ystyried 3 Erthygl berthnasol a restrir yn Atodlen 1. Erthyglau 8, 9 ac 11 yw'r rhain (amgaeir copi yn Nogfen A).

Nid wyf yn credu bod gweithred y Cynulliad yn torri naill ai Erthygl 9 nac 11. Nid yw'r rheidrwydd i unrhyw un gofrestru ei fod yn aelod o gorff yn ei rwystro rhag arfer y rhyddid a ddiogelir gan y ddwy Erthygl hyn. Nid yw aelodaeth o'r Seiri Rhyddion yn cael ei wahardd.

Yr hyn a fyddai'n ddadleuol, yn fy marn i, yw Erthygl 8. Mewn gwirionedd, byddai'n bosibl i unrhyw un o'r buddiannau y mae'n rhaid eu cofrestru yn ôl yr Atodiad i Reol Sefydlog 4 fod yn gwrthdaro â'r hawliau a sefydlir yn Erthygl 8.

## 4. Y rheswm am y rheidrwydd i gofrestru

Crynhoir y rheswm am y rheidrwydd presennol i gofrestru ym mharagraff 35 Ail Adroddiad y Pwyllgor Dethol ar Faterion Cartref ar aelodaeth o'r Seiri Rhyddion mewn Bywyd Cyhoeddus – Sesiwn 1998-99. Dywed yr adroddiad hwn ei bod yn barod yn ofynnol i Aelodau Seneddol ac aelodau awdurdodau lleol ddatgan buddiannau a allai wrthdaro â'u dyletswyddau fel gweision y cyhoedd.

Fyddai'r rheswm hwn yn ddigon i ddod o fewn profiso paragraff 2 Erthygl 8, ac felly yn galluogi'r gofyniad i gofrestru i ymyrryd yn gyfreithlon â'r hawliau a sefydlwyd o dan baragraff 1 Erthygl 8?

Mae posibilrwydd y gallai'r profiso sy'n gysylltiedig â iechyd economaidd y wlad, fod yn berthnasol cyn belled ag y byddai cofrestru yn ei gwneud yn anoddach i berson ffafrio ei fuddiannau neu ei buddiannau ei hun yng anghyfreithlon. Gellid dweud bod cofrestru yn angenrheidiol ar gyfer diogelu hawliau a rhyddid eraill, gan fod y rheidrwydd i gofrestru yn amddiffyn lles cymdeithas ddemocrataidd. Serch hynny, gallai Llys ddadansoddi 'hawliau a rhyddid' fel y rheini a enwir yn Atodlen 1 i'r Ddeddf Hawliau Dynol yn unig. Yn ogystal â hyn, ni chyfeirir yn yr Atodlen at y cysyniad cyffredinol, yn hytrach na chysyniadau penodol amddiffyn cymdeithas ddemocrataidd.

**5. Ydy aelodaeth o'r Seiri Rhyddion yn wahanol i'r buddiannau eraill y mae'n rhaid eu cofrestru?**

Dros y blynyddoedd, yn enwedig mewn llywodraeth leol, cafwyd achosion troseddol sydd wedi tanlinellu'r angen i fod yn agored o ran buddiannau personol aelodau etholedig. yn sgil hyn, fe'i gwnaed yn ofynnol i Aelodau Seneddol, Aelodau Senedd yr Alban, Aelodau Cynulliad Gogledd Iwerddon a chynghorwyr awdurdodau lleol gofrestru'r buddiannau hynny a enwir yn yr Atodiad i Reol Sefydlog 4 – heblaw am aelodaeth o'r Seiri Rhyddion. Pam y cynhwyswyd aelodaeth o'r Seiri Rhyddion fel budd y gellid ei gofrestru?

Yma, mae'r ddadl a gynhaliwyd yn y Cynulliad ar 19 Mai 1999 yn gymorth. Amgaeir y rhannau perthnasol (Dogfen B). Mewn ateb i ymholiad William Graham am y rheidrwydd i gofrestru aelodaeth o'r Seiri Rhyddion, cyfeiria'r cyn Brif Ysgrifennydd at ddwy ffynhonnell o wybodaeth. Y cyntaf yw adroddiad Grwp Ymgynghorol y Cynulliad Cenedlaethol. Amgaeir tudalen berthnasol yr adroddiad (Dogfen C). Nid yw'n rhoi unrhyw reswm pam y byddai'r Cynulliad, yn wahanol i'r Senedd, y cyrff datganoledig eraill ac awdurdodau lleol, angen cofrestru aelodaeth o'r Seiri Rhyddion. Y ffynhonnell arall yw dau adroddiad gan Bwyllgor Dethol Materion Cartref Ty'r Cyffredin, ac ymatebion y Llywodraeth i'r adroddiadau amgaeëdig. Y dogfennau hyn yw sail casgliad y Prif Ysgrifennydd ym mrawddeg olaf adroddiad Trafodion y Cynulliad ar dudalen 30: "Yn dilyn adroddiad y Pwyllgor Dethol ar Faterion Cartref, yr ydym yn amlwg yn symud ymlaen a dylai'r Cynulliad hwn fod ar y blaen ynghylch arddel safonau uwch mewn gwasanaeth cyhoeddus o'r dechrau."

**6. Ystyriaeth o gynnwys yr adroddiadau: (Dogfen D: Trydydd adroddiad ar gyfer 1996 – 1997; Dogfen E: ymateb y Swyddfa Gartref i'r Trydydd adroddiad; Dogfen F: Ail adroddiad ar gyfer 1998-1999; Dogfen G: ymateb y Swyddfa Gartref i'r ail adroddiad.)**

**Dadleuon o blaid parhau i'w gwneud yn ofynnol i Aelodau'r Cynulliad gofrestru**

Mae paragraff 37 yr ail adroddiad yn argymell y dylid estyn y rheidrwydd i gofrestru i Aelodau Seneddol a chynghorwyr awdurdodau lleol.

Yn ddiddorol, ceir cyfeiriad at nifer y Seiri Rhyddion sy'n gynghorwyr yng Nghyngor Sir Benfro – paragraffau 26-30 yr ail adroddiad – gan ddod i'r casgliad bod yn rhaid pryderu am ddylanwadau amhriodol ar waith y cyngor.

Mae paragraff 34 yr ail adroddiad yn dod i'r casgliad y ceir rhai achosion lle y gallai honiadau o ddylanwad amhriodol gan Seiri Rhyddion fod yn gywir.

Daw'r trydydd adroddiad i'r casgliad ym mharagraff 56, nad oes unrhyw beth yn tanseilio hyder y cyhoedd mewn sefydliadau cyhoeddus yn fwy na'r wybodaeth fod rhai gweision cyhoeddus yn aelodau o gymdeithas gyfrinachol, sy'n nodi hunan-ddyrchafiad ei haelodau fel un o'i nodau.

Mae paragraff 26 yr ail adroddiad yn cyfeirio at y ffaith i'r Ombwdsmon Llywodraeth Leol geryddu cynghorwyr nad ydynt yn datgan aelodaeth o'r Seiri Rhyddion mewn cysylltiad â cheisiadau cynllunio. Noder: ceryddu yn unig, oherwydd nad yw datganiadau o'r fath yn ofyniad cyfreithiol.

**Dadleuon o blaid rhoi'r gorau i'w gwneud yn ofynnol i Aelodau'r Cynulliad gofrestru**

Nid yw ymateb y Swyddfa Gartref yn gadarn o blaid yr un ochr na'r llall, o ran yr argymhelliad ym mharagraff 37 yr ail adroddiad i estyn y rheidrwydd i gofnodi i gynghorwyr etholedig ac Aelodau Seneddol, nac o ran y casgliadau a geir ym mharagraff 30 yr ail adroddiad ynghylch y sefyllfa yng Nghyngor Sir Benfro.

Mae paragraff 49 y trydydd adroddiad yn nodi bod rhan fwyaf yr honiadau ynghylch llygredd sy'n ymwneud â Seiri Rhyddion yn ddi-sail, a gallant fod yn deillio o baranoia ynghylch cyfrinachedd obsesiynol y Seiri Rhyddion – gweler hefyd baragraff 32 yr ail adroddiad.

Ar hyn o bryd, ceir system wirfoddol o gofrestru ymysg y farnwriaeth a'r heddlu. Efallai na fydd system wirfoddol o'r fath yn ddigonol yn achos yr heddlu, a gwneir penderfyniad p'un a ddylid deddfu ar hyn yn y Flwyddyn Newydd – gweler paragraff 16 ymateb y Swyddfa Gartref i'r ail adroddiad.

Y Cynulliad yw'r unig fan lle ceir rheidrwydd cyfreithiol i gofrestru. Dywed paragraff 6 ymateb y Swyddfa Gartref i'r ail adroddiad y gallai rheidrwydd i ddatgan y fath fanylion yn gyhoeddus gael ei ddadansoddi fel ymyrraeth â'r hawliau a'r rhyddid a warantir o dan y Cytundeb Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.

## 7. Casgliad

Mae'r dyfyniad uchod gan y Swyddfa Gartref yn crisialu'r holl broblem ynghylch y rheidrwydd cyfreithiol presennol yn y Cynulliad i gofrestru aelodaeth. Mae sylwadau'r Swyddfa Gartref yn dod i ben drwy bwysleisio y byddai'n rhaid sicrhau y gellir cyfiawnhau'r rheidrwydd cyfreithiol i gofrestru yng nghyd-destun y ddeddfwriaeth Hawliau Dynol.

Cyfiawnhaodd y Prif Ysgrifennydd ei argymhelliad am reidrwydd cyfreithiol trwy gyfeirio at y ddau adroddiad gan y pwyllgor dethol, ac ymatebion y Swyddfa Gartref. A ydyw casgliad yr ail adroddiad ym mharagraff 34, a'i ail-gynhyrchu'n llawn wedyn ym mharagraff 15 ymateb y Swyddfa Gartref, ynghyd ag addewid i ystyried a ddylid ei gwneud yn orfodol i gofrestru aelodaeth o'r Seiri Rhyddion yn yr heddlu, yn pwyso'r glorian o blaid y Cynulliad pe byddid yn mynd â'r mater i'r Llys? Bydd llawer yn dibynnu ar y dyfarniad a ddisgwylir o Strasbwrg.

**D G LAMBERT**